

FFURFLEN EITHRIAD TRETH Y CYNGOR (ANEDDAU-GWAHARDDIAD O FEDDIANT DRWY YFRAITH)

Bydd y ffurflen hon yn helpu'r Cyngor benderfynu a ddylai eich eiddo gael ei ryddhau rhag talu'r Dreth Gyngor. Bydd o gymorth i'r Cyngor Sir hefyd benderfynu o ba ddyddiad i ba ddyddiad y gellir caniatáu hyn.

Mae'r eithriad hwn yn gymwys i unrhyw annedd LLE gwaherddir byw ynddo yn ol y gyfraith neu os bydd yn dal yn wag oherwydd bod byw ynddo wedi'i wahardd neu gyda'r bwriad o'i gaffael, yn unol a phwerau unrhyw Ddeddf Seneddol. Mae'r eithriad yn gymwys dim ond os bydd yr eiddo'n wag. Os bydd rhywun yn byw ynddo'n anghyfreithlon, yna mae'r deiliaid yn gyfrifol ac nid yw'r eithriad yn gymwys. Mae nodiadau ychwanegol isod.

A fyddech chiystal â nodi'r rheswm dros y gwaharddiad: _____

Enw'r Gorchymyn: _____

Dyddiad y daeth y Gorchymyn i rym: _____

Pwy oedd yn rhyddhau'r Gorchymyn: _____

DATGANIAD

Rwy'n deall y gall y Cyngor ddymuno archwilio'r wybodaeth a roddais. Byddaf yn dweud wrth y Cyngor ar unwaith am newid yn statws yr eiddo. Rwy'n deall o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, y gellir erlyn unrhyw un sy'n rhoi gwybodaeth ffug neu gellir rhoi cosb. Cyn belled ag y gwn mae'r wybodaeth uchod yn wir ac yn gywir.

Llofnod _____ Dyddiad _____ RHIF FFON _____

PENNAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU

NB. Gall y Cyngor ddefnyddio'r wybodaeth yma i bwrpas perthnasol arll.

Mae unrhyw waharddiad ar breswyliaid yn neddf y cyhoedd yn berthnasol i'r eithriad hwn. Bydd hyn yn cynnwys anheddau a ystyrir yn anaddas i bobl fyw ynddyn nhw ynghyd â chabanau gwyliau a charafanau yn ystod cyfnodau pan na ellir byw yddyn nhw oherwydd amod sy'n gymwys i'r cydsyniad cynllunio perthnasol. Yn achos cabanau gwyliau a charafanau, roedd Adran yr Amgylchedd yn cynghori yn ei llythyr gweithredu Treth y Cyngor ar 13 Mawrth 1995 bod gosod amod yn gwahardd preswyliaid am nifer o fisoedd y flwyddyn yn unol â'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn weithred a gymerir yn unol â Deddf Seneddol ac felly'n gosod yr anedd o fewn Dosbarth G.

Yn *Watson v Cyngor Sir Rhondda Cynon Taf* 2001, roedd yr awdurdod bilio'n ystyried bod anedd a ddefnyddiwyd cynt fel ty â llawer yn byw ynddo yn anedd y dylid codi treth arno, ond roedd y perchennog yn ymladd yr achos ar sail bod rhybuddion y gwasanaeth trwsio gan y Cyngor yn weithred a wnaed gyda'r bwriad o wahardd preswyliaid ac felly, dylai'r eiddo gael ei eithrio yn unol â Dosbarth G.

Rhodddwyd y rhybuddion dan sylw yn unol ag adrannau 189 a 352 Deddf Tai 1985 ac roedden nhw'n disgwyl i'r perchennog wneud y gwaith i wneud yr eiddo'n addas i bobl fyw ynddo ac yn addas i nifer o bobl fyw ynddo. Tynnwyd y rhybuddion yn ôl pan oedd yr eiddo'n wag ond roedd y Cyngor yn dweud wrth y perchennog yn ddiweddarach y byddai'n gweithredu'n ffurfiol petai tenantiaid newydd yn yr eiddo heb i'r gwaith angenrheidiol gael ei wneud yn gyntaf.

Cafwyd bod y rhybuddion a anfonwyd gan yr awdurdod wedi'u hanfon gyda'r bwriad o sicrhau bod yr eiddo'n cael ei drwsio'n iawn ac nid i wahardd rhywun rhag preswyliaid yno. Dywedodd Gibb J, wrth ddiystyru apêl y trethdalwr, nad oedd y ffaith bod rhywun yn byw yn yr eiddo yn ganlyniad i weithred a gymerwyd gan y Cyngor gyda'r bwriad o wahardd preswyliaid ond ei fod o ganlyniad i fethiant y perchennog i gydymffurfio â'r rhybuddion trwsio a'i benderfyniad ei hun i gadw'r ty yn wag.